



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Ms Karyl May - Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol (01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX ar **DYDD MERCHER, 25AIN GORFFENAF, 2018** am **5.00 PM**.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYFLWYNIAD GAN GOMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Rhoi crynodeb i'r Aelodau o brosesau a gweithdrefnau cynnal Adolygiad Etholiadol 2018 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

3. CYHOEDDIADAU

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2018, yn rhai cywir.

5 - 18

5. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

1. Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).

"A wnaiff Arweinydd y Cyngor rannu'r newyddion diweddaraf ynglŷn â thrafodaethau'r CLILC â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynigion o ran aildrefnu llywodraeth leol?"

2. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Cullwick i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Iaith Gymraeg (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins)

"Mae ein preswylwyr hŷn yn RhCT yn derbyn trwydded teledu am ddim a lwfans tanwydd ychwanegol o £100 i hwyluso bywyd bob dydd. Er hynny, does dim modd i lawer ohonyn nhw ddychwelyd i fan parcio sy'n agos i'w cartrefi ar ôl bod allan yn y car. Ydy RhCT wedi ystyried sut i helpu'r preswylwyr hŷn yma sydd eisiau parhau i fod yn annibynnol ac yn rhan o'r gymuned neu am gyhyd ag sy'n bosibl?"

3. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H.Boggis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Rosser)

"Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i annog a hyrwyddo Prydau Ysgol am Ddim mewn ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol?"

4. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.W.Hughes i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ynghylch y buddsoddiad mewn cyfleusterau athletau ledled y Fwrdeistref Sirol?"

5. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L. Hooper i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan)

"Gan ystyried cyhoeddiad diweddar yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch y bwriad i adleoli tua 1700 o weithwyr i Ystad Ddiwydiannol Trefforest, pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i gynyddu capasiti ar y ffyrdd o gwmpas yr Ystad?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 6. DIWEDDARIAD: RHAGLEN WAITH Y CYNGOR A CHALENDR**
Trafod adroddiad Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

19 - 22
- 7. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR**
Trafod adroddiad y Prif Weithredwr.

23 - 80
- 8. ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS**
Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

81 - 90
- 9. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG – Y NEWYDDION
DIWEDDARAF**
Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

91 - 96
- 10. CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BARGEN DDINESIG
PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD**
Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.

97 - 112
- 11. NEWID AELODAETH CYNGOR LECHYD CYMUNED CWM TAF**
Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

113 - 114
- 12. RHYBUDD O GYNNIG – ISADEILEDD CERBYDAU CARBON ISEL
(LCV) RHONDDA CYNON TAF**
Trafod adroddiad Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

115 - 116

13. PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL BRYD

Trafod adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet.

117 - 120

14. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor